**Eitem:** 14

**Teitl:** Diweddariadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I'w gymeradwyo. |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd:<br>• nodi'r adolygiad o gydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar ein Rheolau Sefydlog<br>• ystyried y diweddariadau arfaethedig i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, fel y'u cefnogir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg<br>• nodi er gwybodaeth y Cynllun Dirprwyo diwygiedig (sydd wedi'i ddarparu yn adran papurau er gwybodaeth agenda'r Bwrdd). |
| **Risg / Risk** | Os nad yw Llais yn adolygu ei Reolau Sefydlog, ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'i Gynllun Dirprwyo yn rheolaidd fel rhan o'i drefniadau llywodraethu ehangach, bydd mewn perygl o weithredu heb y sefyllfa ddiweddaraf o ran ei rolau a'i gyfrifoldebau a'i ffyrdd cytunedig o weithio. Bydd hyn yn peri risg i Llais weithredu neu wneud penderfyniadau nad ydynt yn bodloni ei ofynion statudol gofynnol. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes unrhyw agweddau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, gallai gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r fframweithiau a amlinellwyd cael goblygiadau ariannol a llywodraethu i'r sefydliad os nad yw'r trefniadau hyn ar waith ac yn cael eu dilyn o fewn Llais. |
| **Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective**<br>. | Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn benodol ag amcan 5 – sef tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb. |

| | |
|---|---|
| | Mae trefniadau llywodraethu da yn alluogwr pwysig ar gyfer gweithrediad a chyflawniad llwyddiannus pob agwedd ar waith Llais ac felly, cyflawni'r holl amcanion allweddol. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r adroddiad hwn yn yr ardal asesu hon. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>Allanol: enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Alyson Thomas, Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Mae Llais wedi cytuno ar Reolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn flaenorol ac wedi cynnal Cynllun Dirprwyo gweithredol.<br><br>Mae'r rhain wedi cael eu cadw dan adolygiad, ac roedd yr ystod o ddogfennaeth llywodraethu yn destun adolygiad cyflawn yn 2024, yr oedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gyfrannwr allweddol iddo ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd. |
| **Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting** | Richard Bevan, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd a Katie Holliday, Cyfarwyddwr Cyllid |
| **Dyddiad / Date** | 09 Mawrth 2026 |

## Cefndir / Background

Cyflwyniad **Pwysigrwydd adolygu dogfennau llywodraethu craidd**

Mae Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, a'r Cynllun Dirprwyo yn ffurfio conglfeini ein fframwaith llywodraethu. Maent yn diffinio sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, sut mae adnoddau ariannol yn cael eu rheoli, a

sut mae atebolrwydd yn cael ei gynnal ar draws y sefydliad. Mae'r dogfennau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein gweithrediadau'n gyfreithlon, yn dryloyw, ac yn cyd-fynd â safonau arfer gorau.

Mae adolygiadau rheolaidd o'r dogfennau llywodraethu hyn yn hanfodol am sawl rheswm:

- Cydymffurfiaeth a sicrwydd: Rhaid iddynt adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, canllawiau Llywodraeth Cymru, a gofynion llywodraethu sector cyhoeddus Cymru.

- Rheoli risg: Gall darpariaethau sydd wedi dyddio neu sydd yn aneglur arwain at fethiannau llywodraethu, afreoleidd-dra ariannol, neu risg i enw da.

- Effeithiolrwydd sefydliadol: Wrth i Llais esblygu, rhaid i'n fframwaith llywodraethu addasu i gefnogi gwneud penderfyniadau effeithlon, llinellau cyfrifoldeb clir ac adlewyrchu unrhyw newidiadau yn strwythurau rheoli'r sefydliad.

- Hyder y cyhoedd: Mae trefniadau llywodraethu cadarn a chyfoes yn sail i ymddiriedaeth yn ein gallu i weithredu gydag uniondeb ac atebolrwydd.

Mae'r adroddiad adolygu hwn yn ceisio rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y dogfennau sylfaenol hyn yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn parhau i ddiogelu dyletswyddau statudol ac amcanion strategol ein sefydliad. Mae'r gwaith adolygu wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae unrhyw newidiadau arfaethedig yn y dogfennau sydd ynghlwm wedi cael eu cefnogi gan y pwyllgor a'u hargymell i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

## Manylion / Detail

**Adolygiad o Reolau Sefydlog**

Diweddarwyd ein Rheolau Sefydlog yn 2024 a'u cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024. Yn dechnegol nid oes angen adolygiad ffurfiol arnynt tan fis Gorffennaf 2026. Serch hynny, mae adolygiad wedi'i gynnal gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd ac wedi'i drafod gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol i brofi cydymffurfiaeth gyfredol y sefydliad â nhw.

O ran cydymffurfio, mae'r sefydliad yn gwneud yn dda iawn ar y cyfan ac yn rhagori ar rai o'r darpariaethau. Mae'r tabl canlynol yn rhoi amlinelliad o'r meysydd hynny lle

mae angen diweddaru'r geiriad yn dilyn newidiadau yn y flwyddyn ddiwethaf, yn amlinellu meysydd lle rydym ar hyn o bryd yn rhagori ar y darpariaethau ac yn tynnu sylw at 1 maes lle nad ydym wedi bwrw ymlaen â darpariaeth a'r rheswm pam.

Ym mhob maes arall o'r Rheolau Sefydlog, aseswyd ein bod yn cydymffurfio ar hyn o bryd.

| **Darpariaeth Rheolau Sefydlog** | **Safbwynt/diweddariad** |
|---|---|
| Tudalen 5 - mewn diffiniadau rydym yn sôn am Dîm Noddi Llywodraeth Cymru. | Gyda Llywodraeth Cymru rydym bellach wedi newid teitl y cyfarfod hwnnw i gyfarfod y Tîm Partneriaeth. |
| Tudalen 6 – mewn diffiniadau a thrwy gydol y ddogfen defnyddir y teitl Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae'r rôl hon bellach wedi newid i Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd | At ddibenion y Rheolau Sefydlog, rydym yn cynnig ei adael fel Ysgrifennydd y Bwrdd, gan mai dyma'r rôl sy'n ymwneud â phrif gynghorydd llywodraethu'r Bwrdd. |
| Tudalen 14 - 5.2 - rydym yn mynd y tu hwnt i'r darpariaethau hyn - rydym yn dweud y byddwn yn darparu papurau cyfarfodydd y Bwrdd i aelodau'r cyhoedd ar gais. | Fodd bynnag, rydym yn cyhoeddi'r rhain yn weithredol o leiaf 3 diwrnod gwaith ymlaen llaw ar ein tudalennau gwe. Mae hyn yn arwydd o'n hymrwymiad i dryloywder a didwylledd. |
| Tudalen 14 - 6.1 - Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â'r Prif Swyddog Gweithredol yn enwebu rhywun i weithredu fel ei ddirprwy yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ei absenoldeb a bod gan y person hwn hawliau pleidleisio. | Dylai'r ddarpariaeth honno aros, ond rydym hefyd yn rhoi nodiadau dirprwyo dros dro ar waith i gwmpasu absenoldebau wedi'u cynllunio ac yn cymryd camau i gyflwyno sicrwydd/eglurder pellach drwy ddynodi Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol yn ein strwythur. |
| Tudalen 17 - 7.1 - Rydym yn rhagori yn y maes hwn, gan ei fod yn dweud y byddwn yn darparu cofnodion cymeradwy trwy eu cyhoeddi. | Fodd bynnag, rydym eisoes yn darparu cofnodion drafft yn y parth cyhoeddus, yn ogystal â chyhoeddi cofnodion pan gânt eu cymeradwyo. Mae hyn unwaith eto'n cefnogi ein hymrwymiadau i fod yn agored ac yn dryloyw. |

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

| | |
|---|---|
| Tudalen 18 - 8.4 - mae angen inni ychwanegu cyfeiriad at enw llawn newydd y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth. | Bydd hyn yn cael ei ychwanegu yn yr adolygiad llawn nesaf. |
| Tudalen 21 - 9.6 - Angen newid enw'r pwyllgor i'r Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth | Bydd hyn yn cael ei ychwanegu yn yr adolygiad llawn nesaf. |
| Tudalen 22 - Adran 11. Tîm Rheoli Uwch yw teitl yr adran hon | Cynigir ein bod yn newid hyn i'r Tîm Gweithredol. Byddwn hefyd yn sôn am y tîm uwch arweinyddiaeth ehangach – Tîm Arwain yng nghorff y testun. |
| Tudalen 25 - 13.3 - rydym yn rhagori yn y maes hwn, fel y dywedwn byddwn yn rhoi cofnodion cymeradwy a'r log gweithredu ar y we pan gânt eu cymeradwyo. | Fodd bynnag, rydym yn cyhoeddi'r cofnodion drafft at ddibenion tryloywder a didwylledd. |
| Tudalen 30 20.3 - mae darpariaeth lle gall yr aelodau anweithredol gan gynnwys y cadeirydd gyfarfod yn breifat o leiaf unwaith y flwyddyn heb aelodau gweithredol. | Nid yw hyn wedi digwydd hyd yn hyn. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r ddarpariaeth, os oes angen. |

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adolygiad hwn a'r cynnydd a wnaed o ran cydymffurfio â'n Rheolau Sefydlog a chefnogi'r gwelliant i'n Rheolau Sefydlog yn eu hadolygiad llawn nesaf ym mis Gorffennaf 2026.

**Adolygiad o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog**

Datblygwyd ein Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn wreiddiol gan ddefnyddio Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Gofal Cymdeithasol Cymru fel templed ac fe'u haddaswyd i adlewyrchu arferion gweithredol Llais ar y pryd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi cael eu profi trwy eu defnyddio. Fe'u diweddarwyd yn 2024 gyda chyfranogiad y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fodd bynnag, mae wedi dod yn amlwg bod angen gwelliannau pellach i gryfhau gwydnwch, gwella eglurder, a sicrhau cyd-fynd yn llawn â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a disgwyliadau llywodraethu cyfredol.

Mae'r prif welliannau a gynigiwyd wedi'u crynhoi isod.

**Gwelliannau Allweddol**

| Cyfeirnod paragraff | Diweddariad |
|---|---|
| Drwy gydol y ddogfen | Mae cyfrifoldebau a ddirprwywyd gan y Prif Weithredwr wedi'u diffinio'n gliriach |
| Drwy gydol y ddogfen | Mae teitlau swyddi wedi'u diweddaru drwyddi draw i roi eglurder ar gyfrifoldebau a neilltuwyd. |
| Drwy gydol y ddogfen | Dileu arferion sydd wedi dyddio, er enghraifft dileu'r gofyniad am log llofnodion. |
| Adran 9 | Cyfeiriadau uniongyrchol at y gofynion deddfwriaethol o fewn Deddf Caffael 2023. |
| 2.1 | Cyfeirio cliriach at y fframweithiau llywodraethu a'r ddeddfwriaeth sylfaenol. |
| 7.5 | Cynnwys adran ar gario balansau arian parod drosodd rhwng tynnu arian i lawr ac ar ddiwedd y flwyddyn. |
| 7.7 | Yn unol â Chanllawiau Cyllidebu Canolog, eglurhad ar y gofyniad am orchudd cyllideb priodol pan dderbynnir incwm gan gyrff eraill. |
| 8.5 | Adolygu trefniadau mandad banc fel bod holl aelodau'r Tîm Gweithredol wedi'u cynnwys fel cymeradwywyr ar y mandad a Bankline (porth bancio Llais), gan wella gwydnwch sefydliadol (a oedd wedi'i gyfyngu gynt i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Corfforaethol a Gweithrediadau, Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyfarwyddwr Cyllid). |
| 8.9 | Dileu cyfeiriadau at lofnodwyr sieciau gan nad yw llyfrau sieciau yn cael eu defnyddio mwyach. |
| 8.10 | Cynnwys cadarnhad bod gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fynediad at gyfrifon banc Llais i brosesu taliadau ar gyfer cyfrifon sy'n daladwy a chyflogres. |
| 9.3 | Cyfeiriad uniongyrchol at Ddeddf Caffael 2023 wedi'i ddarparu i sicrhau cyd-fynd â'r canllawiau a ddarperir yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hyn. |
| 9.4 | Tabl wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu arferion busnes arfaethedig a chreu effeithlonrwydd mewn prosesau caffael a cheisiadau. |
| 9.5 | Cydnabyddiaeth o fabwysiadu dull caffael sy'n seiliedig ar risg gan y gall unrhyw gaffael a ystyrir yn risg uchel, waeth beth fo'i |

| | |
|---|---|
| | werth, fod yn destun proses fwy llym nag a fanylir yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. |
| 9.11 | Dileu'r gofyniad blaenorol i'r adran noddi gymeradwyo prosiectau cyfalaf dros £20k, prosiectau TG dros £250k, a chontractau ymgynghori dros £50k. Ni chyfeirir at y gofynion hyn o fewn fframwaith llywodraethu Llais, ac nid ydynt yn cyd-fynd ag arferion. |
| 9.14 | Diwygio'r broses dyfarnu uniongyrchol: yn flaenorol nid oedd unrhyw ddarpariaeth yn bodoli ar gyfer dyfarniadau uniongyrchol uwchlaw £30,000 nac ar gyfer adrodd cysylltiedig. Mae'r dull diwygiedig yn caniatáu i dendrau dros £30,000 gael eu hystyried gan y Bwrdd i'w cymeradwyo lle darperir rhesymeg glir. Gall y Prif Weithredwr gymeradwyo'r rhai sydd o dan £30,000. |
| 9.20 | Dirprwyo cyfrifoldebau llofnodi caffael penodol o'r Prif Weithredwr i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau lle nad oes digon o ddyfynbrisiau wedi'u derbyn. |
| 9.22 | Cyflwyno proses lofnodi ffurfiol ar gyfer estyniadau contractau, yn gyson â dyfarniadau uniongyrchol. |
| 9.23 | Naratif cryfach ynghylch ymestyn contract i gyd-fynd â deddfwriaeth. |
| 9.25 | Cynnwys gofynion gwariant cyfalaf sy'n ymwneud â chydnabod prydles. |
| 9.28 | Trothwyon caffael wedi'u diweddaru i gyd-fynd â Deddf Caffael 2023. |
| 10.1 | Geiriad cryfach yn yr adran terfynau cymeradwyo taliadau i gyfeirio'n benodol at daliadau uniongyrchol a'r broses gymeradwyo. |
| 12.1 | Cynnig i gynyddu'r trothwy cyfalafu i £5,000 (heb gynnwys TAW). Roedd yn £5,000 yn flaenorol gan gynnwys TAW. Mae'r trothwy wedi'i ddiweddaru yn cyd-fynd â throthwyon Llywodraeth Cymru. |
| 12.3 | Eglurhad nad yw asedau sefydlog yn cael eu grwpio i gyrraedd y trothwy cyfalafu. |
| 12.5 | Gofyniad i wiriadau gwirio asedau gael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn yn hytrach nag yn flynyddol. Yn galluogi adnabod difrod neu golled yn gynharach. |
| 15.0 | Adran wedi'i diweddaru i gynnwys taliadau treuliau i staff a'r Bwrdd |

| 16.3 | Colledion i'w hadrodd i Weinidogion drwy'r Adroddiad Blynyddol yn hytrach na thrwy ohebiaeth unigol. |
|---|---|

Roedd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog adolygedig wedi cael eu hystyried a'u cefnogi gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r newidiadau a'r ychwanegiadau arfaethedig.

Darperir y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn Atodiad 1.

**Cynllun Dirprwyo Gweithredol wedi'i Adolygu [ar gael yn adran 'Er gwybodaeth' yr agenda]:**

Y Prif Weithredwr sy'n berchen ar y Cynllun Dirprwyo gweithredol ar gyfer Llais. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Fframwaith Materion a Gedwir yn Ôl ar gyfer Cymeradwyaeth y Bwrdd a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn 2024, er mwyn deall y trefniadau sefydliadol cyfan. Y Cynllun Dirprwyo yw'r fframwaith y mae'r Prif Weithredwr yn dirprwyo ymhellach y cyfrifoldeb a roddir gan y Bwrdd i'r Prif Weithredwr. Mae hyn yn sicrhau bod swyddogion a grwpiau enwebedig o fewn Llais yn gallu gwneud y penderfyniadau dyddiol sy'n ofynnol o fewn y sefydliad. Mae hefyd yn cefnogi ymrwymiad Llais i gyfrifolaeth fel bod gwneud penderfyniadau yn digwydd ar y lefel fwyaf priodol ledled y sefydliad.

Mae adolygu Cynllun Dirprwyo Llais yn rheolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau eglurder, atebolrwydd a llywodraethu effeithiol ar draws y sefydliad. Fel fframwaith mae'n diffinio sut mae penderfyniadau strategol a gweithredol yn cael eu rheoli. Mae adolygu rheolaidd yn helpu i sicrhau bod pwerau dirprwyedig/gwneud penderfyniadau yn parhau i fod yn briodol, yn adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol a blaenoriaethau sefydliadol, ac yn cefnogi tryloywder yn y ffordd y gwneir penderfyniadau.

Mae ein proses adolygu yn ceisio diogelu cydymffurfiaeth, cryfhau ymddiriedaeth, a sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn parhau i alluogi Llais i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau yn effeithlon ac yn gyfrifol.

Mae newidiadau wedi bod yn angenrheidiol yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf, yn dilyn ymadawiad Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau a Gweithrediadau Corfforaethol a'r gwelliannau a'r newidiadau a wnaed i strwythur yr uwch reolwyr o ganlyniad. Cytunwyd ar y rhain gan y Bwrdd ym mis Medi 2025. Adolygodd y Prif Weithredwr y Cynllun Dirprwyo gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, ac mae'r cynllun dirprwyo diwygiedig wedi'i ystyried a'i gefnogi gan y Tîm Gweithredol.

Darperir y cynllun dirprwyo adolygedig i'r pwyllgor er gwybodaeth ac ymwybyddiaeth fel rhan o fframwaith llywodraethu cyffredinol Llais.

Mae'r cynllun dirprwyo yn ddogfen ddeinamig a gall fod yn destun newid rheolaidd. Bydd angen newidiadau pellach yn y misoedd nesaf pan fydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau newydd yn dechrau ei rôl o fewn y sefydliad.

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r ddogfen hon er gwybodaeth.